

Ar Shabbat (machlud haul ddydd Gwener hyd at fachlud haul ddydd Sadwrn), yn y synagog, pan fyddwn ni'r Iddewon yn ymgynnull i gwrdd a gweddïo, rydym yn darllen cyfran wythnosol o'r *Torah* (pum llyfr cyntaf Moses). Gelwir y rhan (yn Hebraeg 'parasha'), a ddarllenir y Shabbat hwn, yn '*Korach*' ar ôl ei air nodedig cyntaf, ac mae'n cyfeirio at BeMidbar ("Yn y Diffeithwch"), neu Numeri 16:1-18:32.

*BeMidbar* neu Numeri yw pedwerydd llyfr y Beibl Hebraeg. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'n digwydd ar ôl y rhyddhad o'r Aifft gan fod Plant Israel yn dal i grwydro yn yr anialwch, cyn iddynt gyrraedd Canaan, Gwlad yr Addewid. Eu harweinydd yw Moses ond yn y *Korach* herir ei arweiniad gan y dyn yr enwir y *parasha* ar ei ôl.

Mae her Korach yn methu ac mae ef a'i ddilynwyr yn marw o ganlyniad, ond mae'r parasha yn gofyn rhai cwestiynau diddorol am arweinyddiaeth a beth sy'n gwneud arweinydd da. Ni chafodd Moses ei eni yn arweinydd, ond ni chafodd ei ethol ychwaith. Fodd bynnag, cafodd ei ddewis a bu'n rhaid iddo brofi ei hun. Hyd yn oed ar ôl iddo ryddhau Plant Israel, roedd yn rhaid iddo brofi ei hun iddynt. Yn *Korach*, maen nhw'n gofyn: "Onid yw'n ddigon dy fod wedi dod â ni allan o wlad yn llifeirio o laeth a mêl i'n lladd ni yn yr anialwch, i ti hefyd fod yn awdurdod arnom ni?"

Mae ein harweinwyr a'u harweinyddiaeth yn y newyddion yn gyson. P'un ai'r "cryfion" fel y'u gelwir, i ddyfynnu llyfr diweddar - pobl fel Vladimir Putin yn Rwsia, Viktor Orban yn Hwngari neu Modi yn India, neu arweinwyr Wcráin neu'r DU sy'n cynnig cyferbyniadau o'r fath. Ydy'r Beibl yn cynnig unrhyw fewnwelediad inni?

Er ei fod yn llawn arweinwyr, mae'r Beibl Hebraeg yn amwys am arweinyddiaeth ddynol. Yn oes y Barnwyr, dywedodd yr arwr milwrol Gideon "Ni myfi na'm mab fydd yn llywodraethu arnoch; yr Arglwydd fydd yn llywodraethu arnoch." (Barnwyr 8:23). Roedd y Barnwyr eu hunain yn anetholedig ond yn arweinwyr an-etifeddol a benodwyd dros dro ar adegau o argyfwng milwrol i amddiffyn Israel yn erbyn ei gelynion ac i sefydlu cyfiawnder. Mewn cymdeithas batriarchaidd, roedden nhw hyd yn oed yn cynnwys merched.

Mae'r barnwyr Beiblaidd hynny'n swnio fel model addawol ond ni wnaethant bara. Mewn blwyddyn pan fyddwn yn dathlu Jiwbil'r Frenhines (gair a allai ddeillio o'r Hebraeg *yovel*, neu utgorn, am nodi digwyddiad o'r fath), beth sydd gan y Beibl i'w ddweud am fathau eraill o arweinwyr anetholedig?

Rhybuddiodd y proffwyd Samuel am beryglon penodi brenin.

"fe gymer eich meibion a'u gwneud yn gerbydwyr ac yn farchogion i fynd o flaen ei gerbyd ... cymer hefyd eich meysydd a'ch gwinllannoedd a'ch gerddi olewydd gorau... A'r dydd hwnnw, byddwch yn protestio oherwydd y brenin y byddwch wedi ei ddewis, ond ni fydd yr Arglwydd yn eich ateb y diwrnod hwnnw." [1 Sam. 8.11.18]

Ac, ar un ystyr, mae Samuel yn iawn oherwydd unwaith y mae brenhiniaeth wedi'i sefydlu yn Israel Feiblaidd dyna sy'n arwain at ei chwymp yn y pen draw.

Efallai y byddai'n dda inni gofio gwersi o'r fath yn enwedig gyda dadleuon ynghylch beth neu bwy sy'n gwneud arweinydd da a pha fath o system arweinyddiaeth sydd orau. Yng nghydestun cynhyrfus heddiw, mae geiriau'r Beibl yn parhau i atseinio'n uchel.